



Paratoi ar gyfer Athrofa Padarn Sant

Llongyfarchiadau ar gael eich noddi i hyfforddi ar gyfer y Weinidogaeth! Rydym yn falch iawn o rannu eich taith gyda chi dros y blynnyddoedd nesaf wrth baratoi ar gyfer y weinidogaeth y mae Duw wedi eich galw i'w gwneud.

Mae'n arferol i bryderi, ond rydym oll wedi bod yn y sefyllfa hynny, ac rydym yma i helpu. Byddwch yn gweld bod yr ymgeiswyr eraill yn gyfeillgar ac yn gefnogol, ac mae'r tiwtoriaid hefyd! I ddweud y gwir, byddai'n well gennym wybod unrhyw broblemau sydd gennych yn gynnwys yn y broses yn hytrach nac yn hwyrach. Os ydych yn pendroni a ddylech gysylltu â rhywun ynghylch rhywbeth boed yn rhywbeth bach neu fawr, peidiwch â phoeni, cysylltwch â ni. Rydym ni eisiau i chi deimlo'n hapus ac yn gyfforddus wrth i chi ddatblygu yn eich ffuriant, a'n cyfrifoldeb ni ydy eich cefnogi chi gymaint ag y gallwn.

Os yr hoffech wneud unrhyw ddarllen paratoadol, dyma rhai awgrymiadau. A bod yn onest, byddem yn eich annog i dreulio'r amser cyn i chi ddechrau ar eich hyfforddiant, drwy ymlacio a mwynhau bod gyda theulu a ffrindiau, ac i feddwl yn ofalus am eich blaenoriaethau ar hyn y byddech o bosib yn gorfod ei neilltuo er mwyn gwneud y gorau o'r cyfnod hyfforddi hwn, yn ogystal â pharhau i roi amser i'r perthnasoedd pwysig yn eich bywyd.

Beth sydd fwyaf pwysig?

Gweddi

Mae'r cyfnod hyn o hyfforddi yn gyfle i chi osod ymarfer da o weddi a fydd yn cynnal eich gweinidogaeth.

Buddsoddwch yn eich perthnasoedd a'ch hunan

Gall ddechrau ar gyfnod ffuriant ar gyfer y weinidogaeth rhoi straen ar berthnasoedd ac mae newid bob amser yn faich ac yn straen. Gwnewch gymaint ag y gallwch i osgoi 'cyrraedd' Athrofa Padarn Sant o dan bwysau ac yn flinedig. Cofiwch y bydd eich teulu a ffrindiau agos yn addasu hefyd tuag at y syniad eich bod yn symud mewn i rôl weinidogaethol. Byddwch yn ofalgar drostynt!

Darllenwch y Beibl

Mae'r rhan fwyaf ohonoch yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaethau sydd yn cynnwys pregethu ac addysgu am ffydd, felly mae'n hanfodol eich bod yn dod i adnabod eich Beibl yn dda. Rydym yn awgrymu eich bod yn ceisio darllen yr holl Feibl yn drylwyr yn eich dwy flynedd gyntaf gyda ni. Beth am ddechrau nawr? Os ydych yn edrych am awgrymiadau, byddai darllen (neu ail-ddarllen) y pedwar llyfr hwn yn ddechrau da:

- ✓ Efengyl Marc
- ✓ Yr Apostolion I'r to the Galatiaid
- ✓ Llyfr Genesis
- ✓ Llyfr Eiseia

Gellir darllen Efengyl Marc mewn noswaith, ac mae hynny'n wir am y Galatiaid. Bydd Genesis yn cymryd sawl noswaith i'w ddarllen (stopiwch ar ôl pennod 11 ar y noson gyntaf) bydd Eiseia yn cymryd tuag wythnos (gan fod seibiant naturiol yn dod ar ôl Pennod 39 a Phennod 55).



Byddwch angen darllen cyfieithiad diweddar o'r Beibl. Mae nifer gwahanol ar gael ond byddem yn argymhell y New Revised Standard Version (NRSV) yn Saesneg ac yn y Gymraeg y Beibl Cymraeg Newydd (argraff ddiwygiedig 2004). Mae nifer o fersiynau ar gael mewn Audiobook.

Pedwar awgrym am lyfrau i'w darllen

Er mwyn sbarduno eich meddwl am y Beibl mewn ffordd sydd yn hawdd mynd ato, ceisiwch ddarllen llyfr mwyaf diweddar y Prifathro:

- Jeremy Duff, *Peter's Preaching: The Message of Mark's Gospel* (BRF, 2015) neu Paula Gooder's *Phoebe* (Hodder and Stoughton, 2018).

I rhoi trosolwg am y 'pecyn' cyflawn o ffuriant ar gyfer y weinidogaeth ac addysg diwnyddol:

- Steven Croft and Roger Walton, *Learning for Ministry* (Church House Publishing, 2005)

Os nad ydych yn hyderus yn eich sgiliau academiaidd, llyfr da am sgiliau astudio ydy:

- Stella Cottrell, *The Study Skills Handbook* (3rd Edition, Palgrave Macmillan, 2008).

Cynghorion

- Byddwn yn rhoi llawer o wybodaeth i chi. Ni fyddwch yn cofio popeth. Os ydy rhywbeth yn aneglur gofynnwch! Os ydy rhywbeth yn bwysig dros ben mi fyddwn yn parhau i'ch atgoffa amdano.
- Rhowch ddyddiadau allweddol yn eich dyddiadur.
- Gwnewch yn flaenoriaeth i ddod i adnabod eich tiwtor yn yr esgobaeth - dyma berthynas allweddol drwy gydol eich hyfforddiant.
- Os ydych yn teimlo'n ddihyder darllenwch ychydig am hunan amheuaeth: <https://redditblog.com/2015/11/25/impostor-syndrome-youre-not-the-only-one-who-feels-like-a-fraud/> Mae'r teimladau hyn yn gyffredin iawn. Mae hyd yn oed tiwtoriaid yn teimlo fel hyn ar adegau, credwch ai beidio!
- Byddwch yn agored, yn chwilfrydig... gallwch ddysgu rhywbeth o bob profiad. Byddwch yn cyrraedd ag amrywiaeth o brofiadau, ac mi fydd llawer o ddysgu yn digwydd wrth i chi rhannu eich profiadau a'ch gwybodaeth gyda'ch gilydd, gymaint ag y byddwch yn dysgu mewn unrhyw ddsbarth o bosib.
- Ar yr un nodyn, paratowch eich hun am syndod! Rydych yn dechrau ar daith, a gyda Duw nid ydym bob amser yn gwybod i le bydd y daith yn ein harwain!

Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn i rannu'r daith hon gyda chi.

Pob bendith,

Manon

Manon Ceridwen James (Parch Ddr)

